# LLAWLYFR AELODAU'R CYNGOR

# 2024–25

Adran Llywodraethiant
Prifysgol Aberystwyth
Y Ganolfan Ddelweddu
Penglais
Aberystwyth
SY23 3BF

01970 62 2114

ysgrifennydd@aber.ac.uk

Fersiwn: 16.1 (12 Medi 2024)

*Roedd y wybodaeth yn y llawlyfr hwn yn gywir pan y'i cyhoeddwyd. Gellir cyflwyno mân newidiadau ôl-ddilynol heb eu cyfeirio at gorff perthnasol er mwyn eu cymeradwyo.*

*Bydd gwefan llywodraethiant y Brifysgol – https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/governance – yn cael ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau sy'n cael eu cymeradwyo dros y flwyddyn nesaf.*

*Cyhoeddir fersiwn newydd o'r llawlyfr hwn yn flynyddol, neu yn gynt os bydd newidiadau sylweddol.*

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / *This document is also available in English.*

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth – Cyflwyniad | 01 |
| Hanes | 01 |
| Y Brifysgol Heddiw | 01 |
| Cynllun Strategol | 01 |
| Y Siarter, yr Ystatudau a'r Ordinhadau | 02 |
| Llywodraethiant a Strwythur y Pwyllgorau | 02 |
| Cyngor Prifysgol Aberystwyth | 03 |
| Cyflwyniad | 03 |
| Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau | 03 |
| Unigolion Blaenllaw | 03 |
| Aelodaeth | 04 |
| Rheolau Sefydlog | 04 |
| Adolygu Effeithiolrwydd y Cyngor | 05 |
| Swyddogaeth Aelod o'r Cyngor | 06 |
| Diwylliant ac Ymddygiadau Disgwyliedig | 06 |
| Gwrthdaro Buddiannau | 07 |
| Gwneud Penderfyniadau Corfforaethol | 09 |
| Aelodaeth o Is-bwyllgorau | 10 |
| Cefnogi Aelodau'r Cyngor | 11 |
| Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Adran Llywodraethiant | 11 |
| Cyflwyno a Datblygiad Parhaus | 11 |
| Adolygiad Blynyddol | 11 |
| Sesiynau Briffio | 12 |
| Taliadau | 12 |
| Ad-dalu Treuliau | 12 |
| Cylchredeg Gwaith Papur | 12 |
| Cysylltiadau Defnyddiol | 13 |
| Adran Llywodraethiant | 13 |
| Cadeiryddion a Chlercod yr Is-bwyllgorau | 13 |
| Darllen Pellach | 14 |


**ATODIADAU**


| | |
|---|---|
| Pwyllgorau Llywodraethiant Prifysgol Aberystwyth | 15 |
| Acronymau a byrfoddau | 16 |
| Canllawiau ar gyfer Hawlio Treuliau | 20 |
| Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles Cyhoedd) | 22 |
| Polisïau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth | 27 |
| Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol | 28 |

# PRIFYSGOL ABERYSTWYTH – CYFLWYNIAD

## HANES

Fel y Coleg Prifysgol cyntaf yng Nghymru, mae gan Aberystwyth draddodiad hir a nodedig o Addysg ac ymchwil, ac mae ein sefydlu yn y 19eg ganrif yn un o straeon mawr am gyflawniad arloesol yn hanes modern Cymru.

Dan arweiniad Hugh Owen, un o Gymry Llundain, aeth carfan fechan selog ati o'r 1850au ymlaen i godi digon o arian, trwy gyfraniadau cyhoeddus a phreifat, i sefydlu coleg o statws prifysgol yng Nghymru. Prosiect hynod uchelgeisiol oedd hwn ac ym 1872 agorodd y Brifysgol ei drysau, gyda llond dwrn o ddarlithwyr a dim ond 26 myfyriwr mewn adeilad a oedd, ar yr adeg honno, westy heb gael ei orffen ar lan y môr (yr 'Hen Goleg' erbyn heddiw).

Yn ystod y degawd cyntaf, wynebodd y Brifysgol lawer her a allasai fod wedi dod â hi i ben. Trwy haelioni rhai noddwyr unigol a thrwy ymgyrchoedd yn galw ar werin Cymru am gymorth, llwyddwyd i gadw drysau'r Brifysgol ar agor ac, yn bwysicach oll efallai, fe enillodd y coleg le pwysig ym meddyliau a chalonnau'r Cymry. Testun balchder mawr yw'r ffaith bod y Brifysgol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i addysg menywod, gan ei bod hi ymhlith y sefydliadau cyntaf i dderbyn merched yn fyfyrwyr.

Yn 2022, bydd y Brifysgol yn dathlu ei 150 Mlwyddiant. Edrychwn ymlaen at ddathlu'r garreg filltir honno gyda'n holl gymunedau gan gynnwys aelodau'r Cyngor a'i Phwyllgorau.

## Y BRIFYSGOL HEDDIW

Ers y dyddiau cynnar hynny, aeth Prifysgol Aberystwtyh o nerth i nerth ac mae ganddi bellach dros 6,000 o fyfyrwyr a 2,000 o staff. Wrth i'r sefydliad dyfu, symudodd y prif gampws o'r Hen Goleg ar lan y môr i safle Riw Penglas. Mae'r safle hwn, gyda'i diroedd a dirluniwyd yn gelfydd, yn mwynhau golygfeydd godidog dros dref Aberystwyth ac arfordir Bae Ceredigion. Mae ar y campws adeiladau newydd, gan gynnwys canolfannau mawr i'r celfyddydau a'r gwyddorau, neuaddau preswyl, Canolfan Gelfyddydau ardderchog ac adnoddau chwaraeon o'r safon uchaf.

Mae'r Is-ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol yn rheoli'r sefydliad o ddydd i ddydd yn unol â'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor fel corff llywodraethu'r Brifysgol.

## CYNLLUN STRATEGOL

Ein Cenhadaeth

I gyflwyno addysg ac ymchwil sy'n ysbridoli mewn amgylchedd cefnogol, creadigol ac eithriadol yng Nghymru.

Ein Gweledigaeth

Gan adeiladu ar ein cryfderau hanesyddol a'n henw da am ragoriaeth, byddwn yn cyfrannu at gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach trwy gymhwyso ein gwybodaeth i heriau lleol a byd-eang. Gan weithio o fewn cymuned gefnogol, groesawgar a dwyieithog, byddwn yn defnyddio ein harbenigedd i feithrin meddwl beirniadol, holi annibynnol a sgiliau sy'n ymbaratoi ein myfyrwyr ar gyferbywydau llwyddiannus.

Gellir cael fwy o wybodaeth drwy fynd i'r dudalen we yma: [Cynllun Strategol a Chenhadaeth : Prifysgol Aberystwyth](#).

## Y SIARTER, YR YSTATUDAU A’R ORDINHADAU

Mae Prifysgol Aberystwyth, a sefydlwyd yn 1872, yn sefydliad siartredig a dyfarnwyd Siarter Frenhinol iddi am y tro cyntaf yn 1889, ac mae'n gweithredu yn unol â'i Siarter Frenhinol Atodol a diwygiwyd yn 2018. Mae'r Brifysgol hefyd yn elusen gofrestredig (rhif 1145141).

Mae’r Brifysgol yn cwrdd â'i goblygiadau drwy'r strwythur llywodraethiant canlynol:

1. Mae’r Siarter yn diffinio amcanion, pwerau a swyddogion y Brifysgol, ac egwyddorion fel y gallu i ddysgu ac arholi.

2. Mae’r Ystatudau yn cynnwys rheolau yn ymwneud â chyrff statudol, aelodau a swyddogion sefydliad y Brifysgol.

3. Mae’r Ordinhadau yn ymwneud â’r modd y rheolir y Brifysgol yn ôl fframwaith cyffredinol y Siarter a’r Ystatudau.

Rhaid i unrhyw gynigion i ddiwygio’r Siarter a’r Ystatudau gael eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor. Fodd bynnag, gall Cyngor Prifysgol Aberystwyth ei hun gymeradwyo newidiadau i’r Ordinhadau.

## LLYWODRAETHIANT A STRWYTHUR Y PWYLLGORAU

Mae’r Cyngor, fel corff llywodraethu Prifysgol Aberystwyth, a’r Senedd, sef y corff sy’n gyfrifol am lywodraethiant academaidd, yn cael eu cefnogi gan nifer o is-bwyllgorau.

Tra bod nifer y pwyllgorau sy’n adrodd i’r Cyngor a’r Senedd wedi cael ei leihau yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r strwythur llywodraethiant a phwyllgorau yn cael ei adolygu’n barhaus er mwyn sicrhau bod y strwythur mwyaf addas mewn lle i gwrdd â gofynion sy’n newid.

Fe ad-drefnwyd strwythur yr is-bwyllgorau academaidd, sy’n adrodd i’r Senedd, ar gyfer blwyddyn academaidd 2018–19 er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd a gwelliant academaidd.

Gellir canfod copi o’r strwythur pwyllgorau llywodraethu yn yr atodiadau.

# CYNGOR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

## CYFLWYNIAD

Yn unol â Siarter Atodol Frenhinol Prifysgol Aberystwyth, y Cyngor yw "corff llywodraethol goruchaf y Brifysgol" ac mae'n "gyfrifol am benderfynu ar gyfeiriad strategol y Brifysgol ac am y modd y gweithredir materion ariannol a gweinyddol, a materion eraill y Brifysgol, yn unol â'i hamcanion". Y Cyngor sy'n gwarchod sêl gyffredin y Brifysgol ac yn rheoleiddio ei defnydd, ac mae'r Ystatudau yn amlinellu cyfansoddiad, pwerau a swyddogaethau'r Cyngor.

## DATGANIAD O'R PRIF GYFRIFOLDEBAU

Mae Cyngor y Brifysgol wedi mabwysiadu Datganiad o Brif Gyfrifoldebau, sydd wedi ei ymgorffori mewn Ordinhad. Gellir gweld copi o'r Ordinhad ar: [https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/governance](https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/governance).

## UNIGOLION BLAENLLAW

Cadeirydd y Cyngor

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am arwain y Cyngor a'i gyfarfodydd, gan sicrhau bod y Cyngor yn trafod y materion hynny y mae angen iddo eu trafod a'i fod yn gweithio'n effeithiol, yn unol â dogfennau llywodraethu'r Brifysgol ac unrhyw weithdrefnau a bennwyd ar gyfer cynnal busnes y Cyngor. At hynny, rhaid i'r Cadeirydd gael perthynas waith adeiladol a heriol â'r Is-Ganghellor. Er bod swyddogaethau y naill a'r llall yn sefyll ar wahân, rhaid i'r berthynas fod yn un lle mae'r naill a'r llall yn cefnogi ei gilydd, a rhaid i'w perthynas ymgorffori'r gwirio a'r cydbwyso angenrheidiol.

Yn allanol, mae'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru (*Chairs of Universities Wales*, ChUW).

Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Mae Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn gweithredu fel Aelod Anibynnol Hŷn y corff llywodraethol – swyddogaeth sy'n cynnwys bod yn glust barod i Gadeirydd y Cyngor i wirio synnwyr effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, a gwasanaethu fel canolwr i aelodau eraill y Cyngor lle bo angen. Mae'r Dirprwy Gadeirydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Taliadau.

Os bydd swydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y Cyngor.

Yr Is-Ganghellor

Yr Is-Ganghellor yw prif swyddog academaidd, gweinyddol a chyfrifyddu y Brifysgol, ac sy'n gyfrifol yn gyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda y Brifysgol. Yr Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am reoli'r Brifysgol yn weithredol o ddydd i ddydd, ac sydd felly'n gyfrifol am roi penderfyniadau'r Cyngor ar waith, ymgynghori â staff a myfyrwyr fel y bo'n briodol, a chyflwyno cynigion i'r Cyngor. Yr Is-Ganghellor hefyd yw 'Swyddog Atebol' y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod telerau'r Cod Rheolaeth Ariannol rhwng y Brifysgol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael eu bodloni a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y dyrannwyd ef ar eu cyfer.

Bydd penodiad i swydd Is-Ganghellor yn cael ei wneud gan y Cyngor ar sail argymhelliad Pwyllgor Dethol a sefydlwyd i ystyried ymgeiswyr addas.

Dirprwy i'r Is-Ganghellor

Mae'r Siarter Frenhinol yn caniatáu i'r Cyngor benodi un neu ragor o Ddirprwyon i'r Is-Ganghellor, a fydd yn cyflawni unrhyw swyddogaethau y bydd yr Is-Ganghellor yn eu dirprwyo iddynt. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor wedi penodi unrhyw unigolion i'r swydd hon.

Dirprwy Is-Gangellorion

Gall y Cyngor benodi Dirprwy Is-Gangellorion – a bydd nifer y Dirprwy Is-Gangellorion yn cael ei bennu gan y Cyngor ar sail argymhelliad yr Is-Ganghellor. Cânt eu penodi am dymor cychwynnol o hyd at bum mlynedd

yn y swydd (a'r flwyddyn gyntaf yn flwyddyn brawf). Gall yr Is-Ganghellor argymell i'r Cyngor estyniad yn nhymor Dirprwy Is-Ganghellor ar unrhyw bwynt yn ystod eu tymor, hyd at uchafswm posib o wyth blynedd yn y swydd. Bydd Dirprwy Is-Gangellorion yn cyflawni'r swyddogaethau hynny o eiddo'r Is-Ganghellor y bydd yr Is-Ganghellor yn eu dirprwyo iddynt.

Clerc

Mae swyddogaeth Clerc Cyngor Prifysgol Aberystwyth yn cael ei phenodi gan y Cyngor ei hun ac mae'n cael ei chyflawni gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae gan y Clerc rôl allweddol i'w chwarae i sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei gynnal yn effeithlon: bydd ef / hi yn gweithio'n agos â'r Cadeirydd a'r Is-Ganghellor, yn rhoi cyngor annibynnol i holl aelodau'r Cyngor, ac yn gorfod rhoi gwybod i aelodau'r Cyngor os ydynt mewn perygl o fynd y tu hwnt i'w pwerau neu weithredu'n groes i'r dogfennau llywodraethu. Mae'r Clerc hefyd yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a ddarperir i aelodau'r corff llywodraethu yn gryno a bod eu cynnwys yn addas.

Mae Ysgrifennydd y Brifysgol yn goruchwylio strwythur y pwyllgorau llywodraethiant yn ogystal â chyflawni rôl clerc i phob pwyllgorau llywodraethu allweddol.

**AELODAETH**

Mae aelodaeth y Cyngor yn cael ei diffinio yn Ystatud 5, a daw'r aelodau o chwe chategori gwahanol:

1. Aelodau *ex officio* (Cadeirydd y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, ac un o'r Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion neu'r Dirprwy IsGangellorion).

2. Aelodau o'r Myfyrwyr (Dau fyfyriwr a etholir gan ac o blith mudiad y Myfyrwyr).

3. Aelodau Annibynnol (Hyd at naw aelod, nad ydynt yn aelodau o'r staff, a benodir gan y Cyngor yn unol â'r Ordinhadau).

4. Aelodau o'r Senedd (Hyd at ddau aelod o'r staff academaidd a etholir gan ac o blith y Senedd).

5. Aelodau o Staff (Un aelod a etholir gan ac o blith y staff ar wahân i'r Staff Academaidd).

6. Aelodau a Gyfetholwyd (Unigolion eraill (nad ydynt yn aelodau o'r staff, yn fyfyrwyr, neu yn gynrychiolwyr o fyfyrwyr y Brifysgol) y mae'r Cyngor yn eu cyfethol. Ni fydd pleidlais gan aelodau a gyfetholwyd yng nghyfarfodydd y Cyngor, ac ni fyddant yn cael eu cofrestru fel Ymddiriedolwyr o'r Brifysgol).

Mae Ystatudau'r Brifysgol yn diffinio Aelodau Annibynnol fel unigolion nad ydynt yn aelodau o'r staff nac yn fyfyrwyr y Brifysgol. Mae'r categori hefyd yn cynnwys yr aelodau *ex officio* canlynol o'r Cyngor: Cadeirydd y Cyngor, a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor. Rhaid i'r Aelodau Annibynnol fod yn y mwyafrif ar gyfer cyfarfodydd o'r Cyngor a nifer o'r prif is-bwyllgorau er mwyn cael cworwm.

Mae pob aelod o'r Cyngor yn gydradd o ran statws ar y corff llywodraethu, ac maent i gyd wedi eu cofrestru fel Ymddirietholwyr oni nodir yn wahanol.

Ceir hyd i aelodaeth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024–25 ar y wefan: https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/governance.

**RHEOLAU SEFYDLOG**

Adolygwyd Rheolau Sefydlog y Cyngor yn ystod y flwyddyn academaidd 2019–20. Ceir y fersiwn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Gellir gweld copi o'r fersiwn cyfredol ar: Council : About Us , Aberystwyth University

**ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD Y CYNGOR**

Mae Côd Llywodraethiant Addysg Uwch 2014 y Pwyllgor Cadeiryddion Prifsgolion yn argymell bod cyrff llywodraethol yn “mabwysiadu dull o wella llywodraethiant yn barhaus, er mwyn gwella effeithiolrwydd eu hunain a rhoi esiampl i sefydliadau am bwysigrwydd adolygu a gwerthuso”. O ganlyniad, mae’r côd yn dweud y dylai “adolygiadau gael eu cynnal o leiaf bob pedair blynedd gyda, fel isafswm, adolygiadau blynyddol o gynnydd tuag at gyflawni unrhyw argymhellion sy'n weddill o’r arolwg effeithiolrwydd diwethaf”.

Cynhaliwyd Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu yn y Brifysgol yn ystod y flwyddyn academaidd 2018–19 gan AdvanceHE. Mae’r Cyngor, trwy’r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio, wrthi’n ystyried argymhellion AdvanceHE.

# SWYDDOGAETH AELOD O'R CYNGOR

Mae'r adran isod yn amlinellu amrywiol bolisïau ac egwyddorion y dylai aelodau Cyngor Prifysgol Aberystwyth lynu atynt.

**DIWYLLIANT AC YMDDYGIADAU DISGWYLIEDIG**

Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan

Mae cod ymarfer 'Egwyddorion Nolan' wedi'i ysgrifennu ar sail saith egwyddor bywyd cyhoeddus a bennwyd gan Bwyllgor Nolan yn ei Adroddiad Cyntaf ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ym mis Mai 1995 ac a gefnogwyd wedi hynny gan y Llywodraeth. Mae Prifysgol Aberystwyth yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo a glynu at yr egwyddorion a amlinellir isod ac mae'n disgwyl i'w holl aelodau Cyngor, swyddogion a staff wneud yr un modd.

Saith Egwyddor Nolan

1. Anhunanoldeb: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael manteision ariannol neu fanteision materol eraill iddynt hwy eu hunain, eu teulu na'u ffrindiau.

2. Didwylledd: Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

3. Gwrthrychedd: Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud apwyntiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau yn ôl teilyngdod.

4. Atebolrwydd: Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn barod i dderbyn unrhyw graffu sy'n briodol i'w swydd.

5. Tryloywder: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl am eu holl benderfyniadau a'u gweithredoedd. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a dim ond cyfyngu ar wybodaeth pan fydd budd ehangach y cyhoedd yn amlwg yn gofyn am hynny.

6. Gonestrwydd: Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau personol sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus, a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n amddiffyn budd y cyhoedd.

7. Arweinyddiaeth: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Ymddygiad

Rhaid i Aelodau beidio â dwyn anfri ar y Cyngor na'r Brifysgol, a bod yn ymwybodol y gallai sylwadau a wneir yn gyhoeddus (gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol) gael eu hystyried fel rhai a fynegir ar ran y corff llywodraethu.

Lle bo'n briodol, mae Statudau'r Brifysgol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer diswyddo aelod o'r Cyngor os oes sail i wneud hynny. Mae gan yr aelod dan sylw hawl i gyflwyno sylwadau, os cynhelir proses o'r fath.

Annibyniaeth

Dylai pob aelod wneud cyfraniad creadigol i'r Cyngor trwy ddarparu trosolwg annibynnol, arweiniad strategol a her adeiladol i'r rheolwyr gweithredol.

Yn benodol, rhaid i'r aelodau beidio â gadael i fuddiannau pobl eraill sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, megis rheolwyr gweithredol neu reolwyr canol, neu undebau llafur, eu cipio neu ddylanwadu'n ormodol arnynt. Mae angen i'r aelodau allu herio'n effeithiol ac yn adeiladol, ac ni allant wneud hynny os oes ganddynt fuddiant mewn mater sy'n cael ei drafod.

Ymrwymiad

Fel amod o'u penodiad, bydd Aelodau yn ymrwymo i fynychu pob cyfarfod o'r Cyngor, a chyfarfodydd is-bwyllgorau y byddant yn gwasanaethu arnynt yn ychwanegol, oni bai fod amgylchiadau eithriadol nad oedd modd eu rhagweld yn eu rhwystro rhag bod yn bresennol. Lle bo'n ymarferol, gellir gwneud trefniadau i Aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell.

Cydymffurfio â Pholisïau

Cynghorir aelodau'r Cyngor i ymgyfarwyddo â rhai o bolisïau a gweithdrefnau allweddol Prifysgol Aberystwyth. Mae rhai o'r rhain – megis y Polisi Gwybodaeth Gyhoeddus a Datgelu a pholisïau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth – yn ymwneud yn uniongyrchol â dyletswyddau aelodau'r Cyngor, ac wedi'u cynnwys yn yr atodiadau.

Mae rhestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Aberystwyth ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/policies/.

**GWRTHDARO BUDDIANNAU NEU DEYRNGARWCH**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn gorff sy'n cael cyllid cyhoeddus, ac mae'n ddarostyngedig i'r safonau uchaf oll o ran atebolrwydd ac uniondeb.

Cofrestr Buddiannau

Er mwyn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, na cheir unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch, nac unrhyw ganfyddiad o hynny ychwaith, mae'r sefydliad yn cadw Cofrestr Buddiannau i'r holl staff ac i aelodau corff llywodraethu'r Brifysgol a'i is-bwyllgorau.

Dylid datgan wrth y Brifysgol unrhyw fudd personol - yn ariannol neu fel arall - sy'n debygol (neu y gellid tybio y byddai'n debygol, pe byddai'n hysbys yn gyhoeddus) o amharu ar grebwyll yr unigolyn. Fe'ch cynghorir i fod yn or-ofalus wrth benderfynu a ddylech ddatgan buddiant ai peidio. Mae pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Buddiannau.

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor a'i is-bwyllgorau ddatgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt ar ddechrau eu tymor. Gofynnir hefyd i'r holl aelodau adolygu eu datganiadau yn flynyddol. Fodd bynnag, os ceir unrhyw newid o ran amgylchiadau personol a allai gael effaith berthnasol ar y datganiad blaenorol, dylid rhoi gwybod amdano'n ddi-oed. Mae'r Brifysgol yn disgwyl yn rhesymol mai'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarperir, a'i bod yn gywir, a chyfrifoldeb yr unigolyn yw rhoi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau.

Mae'r holl ddatganiadau o fuddiant a wneir gan aelodau'r Cyngor a'i is-bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, ac mae fersiwn gryno o'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer unigolion o'r fath yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraethu'r Brifysgol (https://www.aber.ac.uk/cy/corporate-information/governance).

Cyfleoedd eraill i ddatgan buddiannau

Boed gwrthdaro buddiannau neu deyrngarwch wedi'i ddatgan o'r blaen ai peidio, ar ddechrau pob cyfarfod dylai unigolion fynd ati'n rhagweithiol i nodi a rhoi gwybod i'r aelodau eraill am unrhyw eitem benodol y gallai eu buddiannau - boed hwy wedi eu datgan i'r Brifysgol o'r blaen ai peidio - fod yn berthnasol iddi.

Dylai unrhyw wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch nas rhagwelwyd ac sy'n codi yn ystod cyfarfod gael ei ddatgan cyn gynted â phosibl yn ystod y cyfarfod hwnnw.

Pan fo hynny'n ofynnol gan Gadeirydd y cyfarfod, gellir gofyn i unigolyn beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth neu'r broses o wneud penderfyniadau dan sylw, neu ofyn iddynt adael y cyfarfod ar yr adeg briodol.

Ym mhob achos pan ganfuwyd gwrthdaro mewn cyfarfod, bydd cofnodion y drafodaeth yn cofnodi'r broses a ddilynwyd a lefel y cyfraniad a ganiatawyd.

Dylai unigolion ofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig Cadeirydd y Cyngor cyn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu waith datblygu busnes allanol a allai fod yn berthnasol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i waith y Brifysgol.

Is-gwmnïau

O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn penodi aelod o'r Cyngor neu is-bwyllgor i fod yn gyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r Brifysgol, er mwyn cynrychioli buddiannau'r Brifysgol fel aelod o'r cwmni hwnnw neu gyfranddaliwr ynddo.

Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y gellid ystyried bod gan yr unigolyn wrthdaro teyrngarwch, a dylent ddatgan y gwrthdaro hwn yng Nghofrestr Buddiannau'r Brifysgol.

Mae gan gyfarwyddwr sydd wedi'i benodi gan y Brifysgol hefyd ddyletswydd statudol, dan gyfraith cwmnïau, i fod yn rhagweithiol ac i osgoi sefyllfa lle bydd ganddynt, neu lle y gallai fod ganddynt, fuddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro, neu a allai wrthdaro o bosibl, â buddiannau'r cwmni.

Yn achlysurol, mae'n bosibl y bydd y dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Brifysgol gan gyfarwyddwr a benodwyd gan y Brifysgol yn gwrthdaro â'r dyletswyddau sy'n ddyledus ganddynt i'r cwmni. Os yw cyfarwyddwr a benodwyd gan y Brifysgol yn ansicr ynghylch a yw sefyllfa benodol yn achos o wrthdaro buddiannau, dylent drafod y mater â Chlerc y Cyngor a, lle bo'n berthnasol, ag ysgrifennydd yr is-gwmni.

Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y gofynnir am gyngor cyfreithiol, ac mae'n bosibl y bydd gofyn i gyfarwyddwr a benodwyd gan y Brifysgol gamu i lawr fel cyfarwyddwr os na ellir ymdrin â'r dyletswyddau sy'n gwrthdaro er lles y Brifysgol a'r cwmni.

Derbyn Rhoddion a Lletygarwch

Mae derbyn rhodd wrth gyflawni dyletswyddau swyddogol yn codi materion ynglŷn ag ymddygiad moesegol, os yw derbyn y rhodd neu letygarwch yn rhoi unigolyn mewn sefyllfa lle ceir gwrthdaro buddiannau, neu lle mae'n ymddangos y ceir gwrthdaro o'r fath. Yn y cyd-destun hwn, nodwedd fwyaf arwyddocaol unrhyw rodd neu letygarwch yw ei werth anghynhenid. Gellid tybio bod unrhyw werth uwchlaw gwerth mewn enw (£25) yn awgrymu cymhelliant cudd.

Y peth mwyaf diogel i'w wneud yw caniatáu derbyn rhoddion neu letygarwch â gwerth mewn enw yn unig. Fel arfer, rhaid gwrthod rhoddion neu letygarwch arall a gynigir, oni bai bod rhesymau da i esbonio pam y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

Rhaid i bob rhodd, boed yn un sy'n cael ei gwrthod neu ei derbyn, gael eu cofnodi mewn Cofrestr o Roddion a Lletygarwch. Yn achos aelodau Cyngor y Brifysgol, dylid cofnodi rhoddion yn y Gofrestr a gedwir gan Swyddfa'r Is-Ganghellor. Gellir trefnu hyn gyda'r Clerc.

Ceir rhagor o ganllawiau ar dderbyn rhoddion yn Llawlyfr Gweithdrefnau Ariannol Prifysgol Aberystwyth (https://www.aber.ac.uk/cy/finance/regs-procedure/).

Mi fydd Swyddfa'r Ysgrifennydd yn cysylltu gyda chi ar ddechrau pob blwyddyn academaidd i ofyn i chi gwblhau a dychwelyd y ffurflenni priodol.

**GWNEUD PENDERFYNIADAU CORFFORAETHOL**

Dylai'r Cyngor arfer ei ddyletswyddau mewn modd corfforaethol, â phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd a'r aelodau'n gweithredu fel un corff. Ni ddylai aelodau weithredu'n unigol, fel cynrychiolwyr etholaeth unigol, neu mewn grwpiau anffurfiol wrth wneud penderfyniadau ar fusnes y Cyngor.

Ni ddylai'r aelodau hynny a enwebwyd gan etholaethau penodol weithredu fel eu bod wedi'u dirprwyo gan y grwpiau y maent yn eu cynrychioli. At hynny, ni ddylai unrhyw aelod o'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu, wrth siarad nac wrth bleidleisio, gan fandadau a roddwyd gan eraill.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor fabwysiadu persbectif strategol priodol er mwyn gweithredu er budd gorau'r sefydliad fel ei lywodraethwyr a'i ymddiriedolwyr.

Rhaid i Aelodau felly gydnabod y rhaniad priodol rhwng llywodraethiant a rheolaeth yn y Brifysgol. Yn benodol, rhaid i Aelodau Annibynnol sicrhau nad ydynt yn ymwneud â rheolaeth weithredol y Brifysgol o ddydd i ddydd; a rhaid i Aelodau o'r Staff a'r Myfyrwyr bod yn ymwybodol o'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae fel aelodau o'r Cyngor, yn ogystal â'r cyfrifoldebau eraill sydd ganddynt oddi fewn i'r sefydliad.

<u>Swyddogaeth fel Ymddiriedolwyr Elusen</u>

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig, ac felly mae aelodau Cyngor y Brifysgol fel arfer wedi'u rhestru fel ymddiriedolwyr elusen. Mae Clerc y Cyngor yn diweddaru manylion ymddiriedolwyr elusen y Brifysgol gyda'r Comisiwn Elusennau yn flynyddol.

Mae ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am gyfarwyddo materion y Brifysgol a sicrhau ei bod yn hydal, yn cael ei rhedeg yn dda ac yn cyflawni'r amcanion elusennol. Chwe phrif ddyletswydd ymddiriedolwr yw:

- Sicrhau bod yr elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd;
- Cydymffurfio â dogfen lywodraethol yr elusen a'r gyfraith;
- Gweithredu er lles gorau'r elusen;
- Rheoli adnoddau'r elusen yn gyfrifol;
- Gweithredu gyda gofal a medrusrwydd rhesymol; a
- Sicrhau bod yr elusen yn atebol.

Ceir rhagor o wybodaeth yng nghyhoeddiad y Comisiwn Elusennau *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud*.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor ddatgan yn flynyddol eu bod yn Bobl 'Addas a Phriodol', ac yn parhau'n gymwys i wasanaethu fel ymddiriedolwr elusen.

<u>Atebolrwydd Personol</u>

Yn unol â'r egwyddor o wneud penderfyniadau corfforaethol, nid yw aelodau'r Cyngor yn atebol yn unigol am weithredoedd y Brifysgol (e.e. dyledion neu rwymedigaethau cytundebol), oni bai eu bod yn cael eu gwneud yn atebol yn bersonol yn sgil eu hymwneud â thorri ymddiriedaeth.

Peth prin yw i aelod o'r Cyngor, fel ymddiriedolwr elusen, gael ei wneud yn atebol yn bersonol am ei weithredoedd gan fod y gyfraith yn gyffredinol yn diogelu'r ymddiriedolwyr hynny sydd wedi ymddwyn yn rhesymol rhag canlyniadau camgymeriadau gonest. Byddai torri ymddiriedaeth yn digwydd pan mae ymddiriedolwr yn gweithredu'n groes i'r Siarter, yr Ystatudau a'r Ordinhadau, neu pan mae ef/hi yn methu â chyflawni ei (d)dyletswyddau fel ymddiriedolwr.

Mae yswiriant Atebolrwydd Llywodraethwyr, Cyfarwyddwyr a Swyddogion mewn lle. Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu unrhyw hawliadau sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw weithredoedd anonest, twyllodrus neu faleisus gan unrhyw bersonau sy'n cael eu diogelu gan y polisi yswiriant. Mae'r polisi hwn yn cael ei drefnu a'i adolygu gan Adran Gyllid y Brifysgol.

Iechyd a Diogelwch
Fel y cyflogydd cyfreithiol y mae gan Gyngor y Brifysgol, ac mae'n cadw, y cyfrifoldeb cyfreithiol terfynol am iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr a phobl eraill sy'n cael eu heffeithio gan weithgareddau'r Brifysgol. I'r perwyl hwn, mae gan aelodau'r Cyngor gyfrifoldeb unigol ac ar y cyd am iechyd a diogelwch ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mae disgwyl iddynt ddangos arweiniad yn y maes.

Rhaid i'r Cyngor gymeradwyo polisi iechyd a diogelwch y Brifysgol, adolygu perfformiad ym maes iechyd a diogelwch yn rheolaidd, a sicrhau bod yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd iechyd a diogelwch yn ddigonol. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd – sy'n adrodd ar y cyd i'r Cyngor a'r Senedd – yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau'r Brifysgol yn y maes hwn a darparu arweiniad perthnasol.

Ceir canllawiau pellach yn llawlyfr Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau *Leading Health and Safety at Work: Leadership actions for Vice-Chancellors and Members of Univeristy Governing Bodies* (gweler tudalen 17).

Codi Pryderon a Holi am Wybodaeth
Os oes gan unrhyw aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth neu ei is-bwyllgorau unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch unrhyw agwedd ar lywodraethiant, rheolaeth neu arferion y Brifysgol, dylid eu trafod yn gyntaf naill ai â Chadeirydd y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, neu â Chadeirydd is-bwyllgor perthnasol.

Gall Clerc y Cyngor roi cyngor cychwynnol yn gyfrinachol i aelodau fel y bo angen.

Os bydd yr aelodau am drafod unrhyw adroddiad sydd i'w ystyried mewn cyfarfod gyda'r is-Ganghellor, yr arweinydd Gweithredol perthnasol, neu Ysgrifennydd y Brifysgol, mae croeso iddynt wneud hynny; a dyliad cysylltu ag Ysgrifennydd y Brifysgol yn y lle cyntaf.

Gellir hefyd ofyn am unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen drwy Ysgrifennydd y Brifysgol cyn y cyfarfod.

Yn ddelfrydol, gellir delio ag unrhyw bryderon a/neu geisiadau am wybodaeth bellach cyn cyfarfod. Fodd bynnag, wrth ystyried adroddiad yn ystod cyfarfod, mae gan yr aelodau sawl opsiwn os oes ganddynt bryderon am y cynnwys neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnynt, gan gynnwys:

- Gwrthod yr adroddiad os ydynt yn anfodlon ag ef;
- Gofyn i'r adroddiad gael ei ailgyflwyno i'r cyfarfod nesaf gyda rhagor o wybodaeth; neu
- Cyfeirio'r adroddiad at is-bwyllgor i graffu arno ymhellach (yn enwedig pan os nad oedd y cam hwnnw wedi digwydd).

**AELODAETH O IS-BWYLLGORAU**

Fel arfer disgwylir i aelodau annibynnol o'r Cyngor wasanaethu ar un neu ragor o is-bwyllgorau, naill ai fel aelodau *ex officio* neu rai a benodwyd. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio yn argymell pa aelodau annibynnol ddylai gael eu penodi i swyddi gwag ar is-bwyllgorau ar sail y 'matrics sgiliau' ar gyfer aelodau annibynnol, sy'n cael ei ddiweddaru ar gyfer pob penodiad newydd i'r Cyngor. Rhaid i argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio gael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

Wedi i aelod gael ei benodi i is-bwyllgor, bydd y clerc perthnasol yn cysylltu ag aelodau â manylion dyddiadau'r cyfarfodydd a threfniadau ar gyfer dosbarthu gwaith papur.

Yn unol â'r Siarter a'r Ystatudau, gall y Cyngor ddirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'w is-bwyllgorau. Mae cwmpas pwerau pob is-bwyllgor, felly, yn amrywio yn unol â'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd iddo, â rhai pwyllgorau'n cael y pŵer i gymeradwyo cynigion amrywiol tra disgwylir i eraill gyflwyno argymhellion i'r Cyngor a ba gamau y dylid eu cymryd.

# CEFNOGI AELODAU’R CYNGOR

## YSGRIFENNYDD Y BRIFYSGOL A’R ADRAN LLYWODRAETHIANT

Darperir cefnogaeth o ddydd i ddydd i aelodau Cyngor Prifysgol Aberystwyth gan Ysgrifennydd y Brifysgol (fel Clerc y Cyngor) ac Adran Llywodraethiant y Brifysgol. Mae Ysgrifennydd y Brifysgol a’r Adran Llywodraethiant yn cefnogi prif bwyllgorau’r Brifysgol ac yn rhoi cyngor i aelodau ar eu cyfrifoldebau.

O fewn yr Adran Llywodraethiant, gall Ysgrifennydd y Brifysgol a’r Swyddog Llywodraethu roi arweiniad a chymorth ymarferol i aelodau’r Cyngor, a gweithredu fel dolen gyswllt rhwng aelodau annibynnol a’r Brifysgol ei hun.

Yr Adran Llywodraethiant fydd yn delio ag unrhyw geisiadau gan aelodau’r Cyngor am lety dros nos neu drefniadau teithio, ac Ysgrifennydd y Brifysgol sy’n gyfrifol am oruchwylio ad-dalu unrhyw gostau y mae aelodau’r Cyngor wedi mynd iddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau (gweler isod).

Fel Clerc y Cyngor, mae Ysgrifennydd y Brifysgol hefyd yn derbyn gohebiaeth ar ran aelodau annibynnol ac yn trafod â hwy i drefnu unrhyw ymateb.

## CYFLWYNO A DATBLYGIAD PARHAUS

Bydd aelodau sydd newydd gael eu penodi i Gyngor Prifysgol Aberystwyth neu ei is-bwyllgorau yn cael cyflwyniad a fydd wedi’i deilwra i’w hanghenion unigol. Fan lleiaf, bydd pob aelod newydd yn cael copi o’r llawlyfr hwn, Côd Llywodraethiant Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Rhagfyr 2014), ac unrhyw gyfrolau perthnasol o gyfres ‘Getting to Grips’ y Sefydliad Arweinyddiaeth mewn Addysg Uwch (LFHE, YmlaenAU erbyn hyn).

Trefnir cyfarfodydd cyflwyno rhwng yr aelodau newydd a Chadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, ac Ysgrifennydd y Brifysgol fel bo’n briodol. Lle’n briodol, fe gynigir taith o amgylch prif gampysau’r Brifysgol i aelodau newydd.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y bydd gan yr aelodau sydd newydd eu penodi amrywiaeth o brofiadau gwahanol. Bydd gan rai brofiad blaenorol o lywodraethu, tra y bydd gwasanaethu yn y capasiti hwn yn brofiad newydd i eraill. O ganlyniad, fe cynigir cyfleoedd ymsefydlu a datblygu pwrpasol i holl aelodau'r cyngor yn seiliedig ar eu gofynion personol a'u diddordebau. Yn achos yr aelodau sydd newydd eu penodi, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn ceisio adnabod eu hanghenion personol cyn eu cyfarfod cyntaf y corff llywodraethu a threfnu cyfarfodydd hyfforddiant neu esboniadol gydag swyddogion allweddol o’r Brifysgol fel y bo'n briodol. Caiff cyfleoedd pellach eu cynnig ar ddiwedd eu tymor cyntaf yn y rôl, gan y bydd yr aelodau newydd wedi mynychu eu cyfarfodydd cyntaf y corff llywodraethu erbyn hynny, a bydd ganddynt gwell syniad o'r cymorth pellach y bydd ei angen arnynt.

Mae YmlaenAU yn trefnu cyrsiau hyfforddiant a seminarau amrywiol ar gyfer aelodau cyrff llywodraethu addysg uwch ledled y DU. Anogir aelodau Cyngor Prifysgol Aberystwyth i fynychu rhai o’r sesiynau hyn, fel cyflwyniad i aelodau newydd ac fel ffynhonnell datblygiad parhaus i aelodau eraill. Gall Ysgrifennydd y Brifysgol ddarparu rhagor o wybodaeth am y cyrsiau a gynigir gan YmlaenAU yn ystod blwyddyn academaidd 2020–21.

## ADOLYGIAD BLYNYDDOL

Mae'n ofynnol i holl aelodau’r Cyngor gymryd rhan mewn proses adolygu flynyddol i’w cynorthwyo i wneud y cyfraniad gorau posibl i’r Cyngor.

Mae’r adolygiad hwn ar ffurf sgwrs un i un gyda Chadeirydd y Cyngor, fel arfer ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, ac mae’n rhoi cyfle i ystyried sut y perfformiodd y Cyngor cyfan yn ystod y flwyddyn flaenorol, blaenoriaethau disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a pha gymorth sydd ei angen ar aelod o'r Cyngor fel unigolyn i’w alluogi i wneud y cyfraniad gorau posibl at lywodraethiant effeithiol y sefydliad.

Yn ogystal â'r arfarniad blynyddol, mae'n ofynnol hefyd inni gasglu adborth gan aelodau trwy holiaduron gwerthuso, a reolaeth ein Cyngor a'i Phwyllgorau. Mae mewnbwn aelodau i'r broses hon yn handfodol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

**SESIYNAU BRIFFIO**

Gellir hefyd wneud cais i Glerc y Cyngor drefnu sesiynau briffio unigol â swyddogion perthnasol y Brifysgol ar gyfer aelodau'r Cyngor. Gallai'r rhain fod yn fuddiol os hoffai aelodau ragor o wybodaeth gefndirol am bapur a fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod sydd i ddod, a gellir cynnal y sesiynau hyn naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

**TALIADAU**

Mae aelodaeth o Gyngor Prifysgol Aberystwyth yn swydd ddi-dâl. Fodd bynnag, gellir hawlio treuliau'n ôl pan fydd aelod wedi gwario arian wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel aelod o'r Cyngor.

**AD-DALU TREULIAU**

Bydd yr holl wariant y mae aelodau Cyngor Prifysgol Aberystwyth yn mynd iddo yng nghyswllt eu dyletswyddau yn cael ei ad-dalu gan y Brifysgol, yn unol â'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau Ariannol presennol.

Bydd llety ar gyfer aelodau'r Cyngor yn cael ei drefnu gan yr Adran Llywodraethiant. Fodd bynnag, bydd angen i'r aelodau lenwi'r ffurflen hawlio berthnasol ar gyfer ad-dalu milltiroedd a yrrwyd mewn car, defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a chynhaliaeth. Gellir cael copi o'r ffurflen hawlio ar: http://www.aber.ac.uk/cy/finance/information-for-staff/travel/, a dylid ei chyflwyno i Ysgrifennydd y Brifysgol ynghyd â'r holl dderbynebau gwreiddiol (ac eithrio treuliau bychain, achlysurol o hyd at £5) o fewn **tri mis** i'r gwariant.

Mae'r canllawiau presennol ar ad-dalu gwariant a therfynau hawlio wedi'u cynnwys yn yr atodiadau.

Gyrru ar fusnes y Brifysgol

Yn gyffredinol, yn achos Aelodau Annibynnol sy'n gyrru eu cerbydau eu hunain o'u cartrefi eu gwaith i fynychu cyfarfodydd rheolaidd o'r Cyngor neu bwyllgor, byddai'r siwrneau hyn yn cael eu hystyried yn filltiroedd domestig.

Fodd bynnag, gall fod adegau pan fydd Aelodau Annibynnol yn defnyddio eu cerbyd eu hunain ar fusnes y Brifysgol, er enghraifft i fynychu cyfarfod neu ddigwyddiad allanol mewn man arall er mwyn cynrychioli'r sefydliad. Mewn amgylchiadau o'r fath, cynghorir yr Aelodau Annibynnol i gysylltu â'u hyswiriwr i wirio a ydynt wedi'u cyfro ar gyfer 'gyrru gwirfoddol' o dan eu polisi yswiriant moduro arferol.

Efallai na fydd unigolion â'r yswiriant yma yn awtomatig fel rhan o'u polisi arferol ar gyfer siwrneiau o'r fath.

**CYLCHREDEG GWAITH PAPUR**

Mae'r holl waith papur ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng gweinydd SharePoint y Brifysgol. Mae papurau hanesyddol hefyd ar gael drwy gyfrwng SharePoint, a gellir cael gafael arnynt ar http://sharepoint.aber.ac.uk. Bydd arnoch angen enw defnyddiwr a chyfrinair Prifysgol Aberystwyth er mwyn cael mynediad i'r gweinydd SharePoint, a gall yr Uned Llywodraethiant drefnu hyn ichi. Gwneir darpariaeth hefyd i ddarparu gwaith papur y Cyngor mewn fformat sy'n addas i'w ddefnyddio ar iPad neu ddyfais dabled arall.

Gellir darparu copïau papur i aelodau fel y bo angen, er bod dosbarthu electronig yn cael ei ffafrio am resymau yn ymwneud â chost, effaith amgylcheddol a chyflymder dosbarthu. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn trafod eich anghenion unigol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Mae gan wahanol is-bwyllgorau brotocolau amrywiol ar gyfer dosbarthu gwaith papur pwyllgorau, a bydd y clerc perthnasol yn rhoi gwybod i'r aelodau am y gweithdrefnau presennol.

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

### ADRAN LLYWODRAETHIANT


Ysgrifennydd y Brifysgol
Dr Gwawr Taylor
gwt4@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Swyddog Llywodraethu
Helen Wyn Davies
hhd@aber.ac.uk / 01970 62 2048

Adran Llywodraethiant, Prifysgol Aberystwyth, Y Ganolfan Ddelweddu, Penglais, Aberystwyth, SY23 3BF


Lle'n bosib, dylid defnyddio'r cyfeiriad ysgrifennydd@aber.ac.uk ar gyfer gohebiaeth electronig cyffredinol fel bod modd rhoi sylw iddi cyn gynted â phosibl gan naill ai Ysgrifennydd y Brifysgol neu gan y Gweinyddwr Llywodraethu.

### CADEIRYDDION A CHLERCOD YR IS-BWYLLGORAU

Dyma restr o'r prif is-bwyllgorau sy'n adrodd naill ai'n uniongyrchol i'r Cyngor, neu i'r Cyngor a'r Senedd:

Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
Cadeirydd: Kate Eden
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
Cadeirydd: Mark Tweed
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

Y Pwyllgor Buddsoddiadau
Cadeirydd: Paul Bevan
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

Y Pwyllgor Diswyddo
Cadeirydd: Rhuanedd Richards, Dirprwy Cadeirydd y Cyngor
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

Y Pwyllgor Enwebiadau
Cadeirydd: Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

Y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant
Cadeirydd: Claire Vaughan
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

Y Pwyllgor Taliadau
Cadeirydd: Rhuanedd Richards, Dirprwy Cadeirydd y Cyngor
Clerc: Ysgrifennydd y Brifysgol (ysgrifennydd@aber.ac.uk)

## DARLLEN PELLACH

Efallai yr hoffai aelodau’r Cyngor edrych ar y dogfennau isod i gael rhagor o wybodaeth am fod yn aelod o gorff llywodraethu addysg uwch:


1. Committee of University Chairs (2014) ‘The Higher Education Code of Governance’.
   Ar gael ar: https://www.universitychairs.ac.uk/wp-content/uploads/2020/09/CUC-HE-Code-of-Governance-publication-final.pdf.

2. Schofield, A (2013) ‘Getting to Grips with Being a New Governor’. Llundain: Leadership Foundation for Higher Education.
   Ar gael ar: https://www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/getting-grips-being-new-governor.


3. Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr (2020) ‘Yr ymddiriedolwr hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod, beth mae angen i chi ei wneud (CC3)’.
   Ar gael ar:
   https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/866949/CC3_Welsh_feb20.pdf.

4. University and Colleges Employer’s Association (2008) ‘Health And Safety At Work Leadership Actions for Vice Chancellors and Members of University Governing Bodies’.
   Ar gael ar: http://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/UCEA0872-Leading-Health-and-Safety.pdf.

5. Gellir gweld a lawrlwytho cyhoeddiadau eraill yng nghyfres ‘Getting to Grips’ YmlaenAU (gan gynnwys ‘Getting to Grips with Internationalisation’, ‘Getting to Grips with Audit’ a ‘Getting to Grips with Risk’) ar: https://www.advance-he.ac.uk/guidance/governance/good-governance/getting-grips-guides.

6. Mae cyhoeddiadau Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) ar gael ar:
   http://www.universitychairs.ac.uk.

## PWYLLGORAU LLYWODRAETHU PRIFYSGOL ABERYSTWYTH



## ACRONYMAU A BYRFODDAU

Mae'r canlynol yn rhoi manylion nifer o acronymau a byrfoddau a ddefnyddir ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn y sector addysg uwch yn fwy cyffredinol. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

| Cymraeg | | Saesneg | |
|---|---|---|---|
| | | ABS | Aberystwyth Business School |
| | Pwyllgor Cynllunio a Datblygu academaidd | ADPC | Academic Development and Planning Committee |
| | Cyngor Ymchwil y Dyniaethau a'r Celfyddydau | AHRC | Arts and Humanities Research Council |
| | Campws Menter ac Arloesedd Aberystwyth | AIEC | Aberystwyth Innovation and Enterprise Campus |
| | Pwyllgor Cynnydd Academaidd | APC | Academic Progress Committee |
| | Cofrestrfa Academaidd | AR | Academic Registry |
| | Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd | ARAC | Audit, Risk and Assurance Committee |
| PA | Prifysgol Aberystwyth | AU | Aberystwyth University |
| | Prifysgol Aberystywth Mawrisiws | AUM | Aberystwyth University Mauritius |
| CPAPA | Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth | AUPAS | Aberystwyth University Pension and Assurance Scheme |
| UMPA | Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth | AUSU | Aberystwyth University Students' Union |
| | Cyngor Ymchwil Gwyddorau Biolegol a Biotechnoleg | BBSRC | Biotechnology and Biological Sciences Research Council |
| | Systemau Busnes a Gwybodaeth ( PA); neu'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau | BIS | Business Information Systems (at AU); or Department for Business, Innovation and Skills |
| | Cydweithio a Datblygu ar draws Rhwydweithiau Rhanbarthol | CADARN | Collaborating and Developing across Regional Networks |
| | Cynllun Casglu Credydau a Throsglwyddo | CATS | Credit Accumulation and Transfer Scheme |
| | Canolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd | CDSAP | Centre for the Development of Staff and Academic Practice |
| | Cadeiryddion Prifysgolion Cymru | ChUW | Chairs of Universities Wales |
| | Datblygiad Proffesiynol Parhaus | CPD | Continuing Professional Development |
| | Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion | CUC | Committee of University Chairs |
| | Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol | CWPSI | Centre for Widening Participation and Social Inclusion |
| | Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni | DARO | Development and Alumni Relations Office |
| | Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear | DGES | Department of Geography and Earth Sciences |
| | Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch | DLHE | Destinations of Leavers from Higher Education |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Lwfans Myfyriwr Anabl | DSA | Disabled Student Allowance |
| | Uned Herio Cydraddoldeb | ECU | Equality Challenge Unit |
| | Adran Datblygu'r Ystadau | EDD | Estates Development Department |
| | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop | ERDF | European Regional Development Fund |
| | Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol | ESRC | Economic and Social Research Council |
| CCaGC | Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol | FASS | Faculty of Arts and Social Sciences |
| CBaGFf | Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol | FBPS | Faculty of Business and Physical Sciences |
| | Addysg Bellach | FE | Further Education |
| CGDaB | Cyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd | FELS | Faculty of Earth and Life Sciences |
| | Deddf Rhyddid Gwybodaeth | FoI | Freedom of Information Act |
| | Safon Adrodd Ariannol | FRS | Financial Reporting Standard |
| | Cyfwerth ag Amser Llawn | FTE | Full Time Equivalent |
| PLlaCh | Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio | GCC | Governance and Compliance Committee |
| | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol | GNVQ | General National Vocational Qualification |
| AU | Addysg Uwch | HE | Higher Education |
| | Academi Addysg Uwch | HEA | Higher Education Academy |
| | Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn Lloegr | HEFCE | Higher Education Funding Council for England |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru | HEFCW | Higher Education Funding Council for Wales |
| | Sefydliad Addysg Uwch | HEI | Higher Education Institution |
| | Asesiad rôl addysg uwch | HERA | Higher Education Role Analysis |
| | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch | HESA | Higher Education Statistics Agency |
| | Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch | HESES | Higher Education Students Early Statistics |
| | Arolygiaeth (neu Arolygwr / Arolygwraig) ei Mawrhydi | HMI | Her Majesty's Inspectorate (or Inspector) |
| | Tystysgrif Cenedlaethol Uwch | HNC | Higher National Certificate |
| | Diploma Cenedlaethol Uwch | HND | Higher National Diploma |
| AD | Adnoddau Dynol | HR | Human Resources |
| IDA | Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd | HSE | Health, Safety and Environment |
| | Statws Noddwr Dibynadwy Iawn | HTS | Highly Trusted Sponsor status |
| | Athrofa Biolegol, Amgylcheddol a Gwyddorau Gwledig | IBERS | Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | ICT | Information and Communication Technologies |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Buddsoddwyr mewn Pobl | IIP | Investors in People |
| | Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol | IMPaCS | Institute of Mathematics, Physics and Computer Science |
| | Yr Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol | InterPol | Department of International Politics |
| | Hawliau Eiddo Deallusol | IPR | Intellectual Property Rights |
| GG | Gwasanaethau Gwybodaeth | IS | Information Services |
| | Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon | ITT | Initial Teacher Training |
| | Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (y Cynghorau Cyllido Addysg Uwch) | JISC | Joint Information Systems Committee (of the Higher Education Funding Councils) |
| | Ysgoloriaethau Sgiliau’r Economi Wybodaeth | KESS | Knowledge Economy Skills Scholarships |
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol | LEA | Local Education Authority |
| | Cymdeithas Ddysgedig Cymru | LSW | Learned Society of Wales |
| | Swyddfa Archwilio Genedlaethol | NAO | National Audit Office |
| | Corff cyhoeddus anadrannol (‘cwango’) | NDPB | Non-departmental public body (‘quango’) |
| | Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol | NERC | Natural Environment Research Council |
| | Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr | NSS | National Student Survey |
| UCM | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr | NUS | National Union of Students |
| | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol | NVQ | National Vocational Qualification |
| | Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol | OIA | Office of the Independent Adjudicator |
| | Y Brifysgol Agored | OU | Open University |
| | Y Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb | PDSEC | Professional Development, Staffing and Equality Committee |
| | Menter Cyllid Preifat | PFI | Private Finance Initiative |
| TAR | Tystysgrif Addysg i Raddedigion | PGCE | Postgraduate Certificate in Education |
| | Ymchwil Ôl-raddedig | PGR | Postgraduate Research |
| | CwrsÔl-raddedig a Addysgir | PGT | Postgraduate Taught |
| | Dirprwy Is-Ganghellor | PVC | Pro Vice-Chancellor |
| | Sicrhau Ansawdd | QA | Quality Assurance |
| | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd | QAA | Quality Assurance Agency |
| | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd | QAC | Quality Assurance Committee |
| | Gwella Ansawdd | QE | Quality Enhancement |
| | Ymchwil sy'n gysylltiedig ag Ansawdd | QR | Quality-related research |
| | Ymchwil a Datblygu | R&D | Research and Development |
| | Ymarfer Asesu Ymchwil | RAE | Research Assessment Exercise |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymchwil, Busnes ac Arloesi | RBI | Research, Business and Innovation |
| FfRhY | Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil | REF | Research Excellence Framework |
| | | RPC | Resources and Performance Committee |
| | Y Gymdeithas Frenhinol | RS | Royal Society |
| | Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau | RSA | Royal Society of Arts |
| | Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes | SELL | School of Education and Lifelong Learning |
| | Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff | SES | Sports and Exercise Science |
| | Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | SLC | Student Loans Company |
| | Gwobrau Dysgu dan Arweiniad y Myfyrwyr | SLTA | Student-led Teaching Awards |
| | Ysgol Rheolaeth a Busnes | SMB | School of Management and Business |
| | Datganiad o Arfer (Cyfrifo) a Argymhellir | SORP | Statement of Recommended (Accounting) Practice |
| | Pwyllgor Ymgynghorol Staff-Myfyriwr | SSCC | Student-Staff Consultative Committee |
| | Adran Theatr, Ffilm ac Astudiaethau’r Teledu | TFTS | Department of Theatre, Film and Television Studies |
| | | THE | Times Higher Education |
| | Dull Tryloyw o Gostio | TRAC | Transparent Approach to Costing |
| | Gwasanaeth Derbyn i Golegau a Phrifysgolion | UCAS | Universities and Colleges Admissions Service |
| | Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a Cholegau | UCEA | Universities and Colleges Employers Association |
| | Undeb Prifysgol a Choleg | UCU | University and College Union |
| | Is-raddedig | UG | Undergraduate |
| | Prifysgolion Cymru | UnisWales | Universities Wales |
| | Uned Asesu | UoA | Unit of Assessment |
| | Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol | UREC | University Research Ethics Committee |
| CPP | Cynllun Pensiwn y Prifysgolion | USS | Universities Superannuation Scheme |
| | Prifysgolion y DU | UUK | Universities UK |
| IG | Is-Ganghellor | VC | Vice-Chancellor |
| | Ehangu Mynediad | WA | Widening Access |
| | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | WEFO | Wales European Funding Office |
| | Llywodraeth Cymru | WG | Welsh Government |
| | Ehangu Cyfanogiad | WP | Widening Participation |

## CANLLAWIAU AR GYFER HAWLIO TREULIAU

Dylid hawlio am unrhyw wariant mewn perthynas â'ch dyletswyddau fel aelod o'r Cyngor yn fisol. Ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu ceisiadau os cyflwynir y cais fwy na **thri mis** ar ôl y gwariant.

Gellir lawrlwytho'r ffurflenni ar gyfer hawlio ad-daliad ar wefan y Brifysgol: Treuliau Staff : Adran Gyllid , Prifysgol Aberystwyth.

**Dylid dychwelyd ffurflenni wedi eu cwblhau at Swyddog Llywodraethu er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo a'u talu.**

**Gellir dod o hyd i'r weithdrefn bresennol i hawlio costau yma:**

Adran-03---Llawlyfr-Treuliau.pdf (aber.ac.uk)

# POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN (DATGELU ER LLES CYHOEDD)

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd. Ei nod yw cynnal ei busnes mewn modd cyfrifol, gan gymryd i ystyriaeth holl ofynion y cyrff cyllido a'r safonau mewn bywyd cyhoeddus y manylir arnynt yn adroddiadau Pwyllgor Nolan, er enghraifft. Mae'r Brifysgol yn dymuno sicrhau bod unrhyw un sy'n datgelu drwgweithredu yn y gwaith yn gallu gwneud hynny heb ofni cosb.

1.2. Mae'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 1999, yn amddiffyn gweithwyr yn gyfreithiol rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr oherwydd iddynt ddatgelu pryderon difrifol penodol yn gyhoeddus. Amod sylfaenol pob contract gwaith yw y bydd gweithiwr yn gwasanaethu ei gyflogwr yn ffyddlon heb ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol ynghylch busnes y cyflogwr. Fodd bynnag, lle bydd unigolyn yn canfod gwybodaeth sydd, yn ei farn ef, yn arwydd o ddrwgweithredu yn y sefydliad, dylid datgelu'r wybodaeth hon heb ofni cosb a gellir gwneud hynny heb roi gwybod i'r rheolwyr llinell. Fodd bynnag, rhaid i'r unigolion gredu eu bod yn gweithredu er lles y cyhoedd er mwyn bod eu pryderon yn cael eu hystyried yn ddatgelu er lles y cyhoedd.

1.3. Dylid pwysleisio mai nod y polisi hwn yw cynorthwyo unigolion sy'n credu iddynt ganfod drwgweithredu yn y Brifysgol. Nid bwriad y polisi hwn yw cwestiynu penderfyniadau ariannol neu fusnes a wneir gan y Brifysgol; ni ddylid ei ddefnyddio ychwaith i ailystyried unrhyw faterion sydd eisoes wedi cael eu trafod yn unol â'r gweithdrefnau urddas a pharch yn y gwaith, cwyno neu ddisgyblu. Bwriad y polisi yw ychwanegu at ddarpariaethau'r Ddeddf. Nid oes dim ynddo y bwriedir iddo effeithio ar hawliau'r unigolyn yn ôl y Ddeddf. Fodd bynnag, bydd yr amddiffyniad ychwanegol y mae'n ei gynnig i 'chwythwr chwiban' yn berthnasol yn unig i'r rhai hynny sy'n cydymffurfio â'r Polisi hwn a'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddo. Mae'n rhesymol disgwyl i aelodau'r Brifysgol ddefnyddio'r gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn yn hytrach na lleisio eu cwyn y tu allan i'r Brifysgol. Dim ond wrth y Brifysgol, cynrychiolydd cyfreithiol neu unigolyn neu gorff priodol y gellir gwneud y datgeliad cymhwyso.

1.4. Anogir pob chwythwr chwiban i roi gwybod pwy ydyn nhw er mwyn iddynt allu cael yr amddiffyniad cyfreithiol perthnasol ac er mwyn sicrhau bod y datgeliad yn gallu cael ei archwiio'n drylwr.

1.5. Mae adegau pan na fydda'n bosib I'r Brifysgol ystyried pryderon a godwyd yn unol â'r weithdrefn hon. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon a gyflwynir yn ddienw – yn enwedig lle na fu'n bosib cael y wybodaeth bellach angenrheidiol I gynnal ymchwiliad priodol ac I ganfod a oes angen cymryd camau pellach.

## 2. Cwmpas y Polisi

2.1. Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio er mwyn galluogi gweithwyr, myfyrwyr a chontractwyr y Brifysgol i godi pryderon ar lefel uchel a/neu ddatgelu gwybodaeth sydd, yn eu barn hwy, yn dangos drwgweithredu sy'n ymwneud â'r Brifysgol. Dylid lleisio'r pryderon o fewn amser rhesymol i'r achos yn codi am y tro cyntaf, neu yn achos nifer o bryderon cysylltiedig, o fewn amser rhesymol i gwyno am y weithred neu'r anweithred ddiwethaf.

2.2. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau eisoes mewn grym yn cynnwys Cwyno, Urddas a Pharch yn y Gwaith a Disgyblu. Nod y polisi hwn yw ymdrin â phryderon sydd er lles y cyhoedd y gellid (yn y lle cyntaf o leiaf) ymchwilio iddynt ar wahân ac arwain o bosibl wedi hynny at weithredu'r cyfryw weithdrefnau. Gallai'r rhain gynnwys:

- camymddygiad ariannol neu amhriodoldeb neu dwyll;
- methu cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu ag Ystatudau, Ordinhadau a Rheoliadau 'r Brifysgol ;
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd;
- gweithgarwch troseddol;
- camymddwyn yn academaidd;
- ymddygiad amhriodol neu anfoesol;
- camweinyddiad cyfiawnder;
- ymdrechion i guddio unrhyw un o'r uchod
- arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol

2.3. Er mwyn osgoi amheuaeth, fel arfer bydd unrhyw bryderon a godir sy'n ymwneud â'r modd y bydd unigolyn yn cael ei drin gan aelodau eraill o'r staff yn cael eu trafod yn unol â Gweithdrefn Gwyno'r Brifysgol neu'r polisi Urddas a Pharch yn y Gwaith.

## 3. Amddiffyn

3.1. Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i amddiffyn y bobl hynny sy'n cael eu cynnwys ynddo rhag cael eu diswyddo a chael eu rhoi dan anfantais fel arall, ac sy'n gwneud "datgeliad cymhwyso" i berson neu gorff priodol, cyn belled ag y bo'r unigolyn yn credu'n rhesymol ei fod yn datgelu "er lles y cyhoedd" ac yn perthyn i un o'r categorïau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth (e.e. trosedd, torri rhwymedigaeth gyfreithiol, camweinyddu cyfiawnder, ac ati).

3.2. Mae Prifysgol Aberystwyth yn disgwyl i'w gweithwyr godi pryderon ynghylch drwgweithredu yn fewnol yn y lle cyntaf ac ni fydd yn dioddef chwythwr chwiban yn cael ei aflonyddu na'i erlid. Lle profir honiadau o aflonyddu ac erlid, gellir ymdrin â hwy yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn Ddisgyblu berthnasol.

## 4. Cyfrinachedd

4.1. Bydd y Brifysgol yn trin pob "datgeliad cymhwyso" yn gyfrinachol ac mewn modd sensitif. Cedwir enw'r unigolyn sy'n gwneud yr honiad yn gyfrinachol os na fydd gwneud hynny yn llesteirio neu'n amharu ar yr ymchwiliad. Os ystyrir bod angen enwi'r unigolyn sy'n datgelu, ymgynghorir â'r unigolyn cyn rhyddhau ei enw. Gall y drefn ymchwilio fynnu bod ffynhonnell y wybodaeth a'r unigolyn sy'n datgelu yn cyflwyno datganiad fel rhan o'r dystiolaeth angenrheidiol neu gymryd rhan mewn ymchwiliad pellach. Cymerir pob cam rhesymol er mwyn sicrhau na fydd y 'chwythwr chwiban' yn cael ei gosbi os bydd ei enw yn cael ei ddatgelu.

Os yw'r person sy'n dymuno datgelu yn gweithio yn y Brifysgol, sylweddolir y gall ddymuno trafod y mater yn gyfrinachol gyda chynghorydd cyfreithiol.

## 5. Honiadau Maleisus neu Flinderus

5.1. Os bydd gweithiwr yn gwneud honiadau maleisus neu flinderus, ac yn arbennig os bydd yn parhau i wneud honiadau o'r fath, gellir disgyblu'r gweithiwr dan sylw drwy weithdrefn ddisgyblu'r Brifysgol.

## 6. Datgelu er lles y Cyhoedd

6.1. Dylai'r unigolyn, yn y lle cyntaf, ddatgelu wyneb yn wyneb a/neu yn ysgrifenedig wrth y person dynodedig, sef fel arfer yr Ysgrifenydd y Brifysgol, a fydd yn rhoi gwybod i'r Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ar unwaith.

6.2. Mewn achosion o gamymddwyn ariannol, dylai'r yr Ysgrifenydd y Brifysgol ymgynghori drwy gydol yr achos â'r Is-Ganghellor, sef Swyddog Cyfrifo cyllid cyhoeddus y Brifysgol.

6.3. Os yw'r datgeliad yn ymwneud â'r Ysgrifenydd y Brifysgol l, dylid datgelu wrth yr Is-Ganghellor yn uniongyrchol. Os yw'r datgeliad yn ymwneud â'r Is-Ganghellor, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn hysbysu Cadeirydd y Cyngor ar unwaith.

Os na bydd yr unigolyn yn dymuno codi'r mater â'r Ysgrifenydd y Brifysgol neu'r Is-Ganghellor, gall ei godi â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n aelodau annibynnol o'r Cyngor, neu â Chadeirydd y Cyngor yn uniongyrchol drwy Ysgrifennydd y Brifysgol.

## 7. Y Drefn

7.1. Bydd y person dynodedig yn ystyried y wybodaeth sydd ar gael iddo/iddi a phenderfynu ar y math o ymchwiliad i'w gynnal. Gall hyn gynnwys, ond heb fod wedi ei gyfyngu i, ymchwilio i'r mater yn fewnol, cyfeirio'r mater at yr Heddlu neu alw ymchwiliad annibynnol.

7.2. Os penderfynir cynnal ymchwiliad drwy un neu ragor o'r dulliau hyn, dylai'r person dynodedig fod yn fodlon fod modd cyfiawnhau gweithredu yn y fath fodd, er bod posibilrwydd o ergyd ddwbl. Gall y person dynodedig benderfynu yn ystod unrhyw ymchwiliad i ddod â'r ymchwiliad i ben neu ei atal dros dro er mwyn rhoi cyfle i'r heddlu neu ymchwiliad annibynnol ymchwilio ymhellach.

7.3. Lle bydd yr achos yn destun ymchwiliad mewnol arfaethedig, bydd y person dynodedig yn defnyddio'i ryddid i ystyried sut i benderfynu a yw'n ymddangos fod achos i'w ateb. Bydd yr ystyriaeth yn cynnwys, ond heb fod wedi'i chyfyngu i benderfynu pwy ddylai gynnal yr ymchwiliad, y drefn i'w dilyn a chwmpas yr adroddiad fydd yn deillio o'r ymchwiliadau hyn.

## 8. Yr Ymchwiliad

8.1. Fel arfer, bydd swyddog annibynnol yn y Brifysgol yn cynnal yr ymchwiliad ac yn adrodd ei ganfyddiadau wrth y person dynodedig. Ni ddylai ymchwiliadau gael eu cynnal gan y person a fydd yn gorfod penderfynu ar y mater. Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn modd mor sensitif ac amser rhesymol.

8.2. ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, gall gweithdrefnau mewnol eraill gael eu gweithredu, megis:

- y weithdrefn ddisgyblu
- y weithdrefn gwyno neu
- y weithdrefn gwynion
- y polisi Urddas a Pharch yn y gwaith
- Neu gall fod yn sail i ymchwiliad 'arbennig'.

Mewn ambell achos, gall fod angen cyfeirio'r mater at awdurdod allanol ar gyfer ymchwilio ymhellach.

## 9. Adborth

9.1. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y person dynodedig yn rhoi gwybod i'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad pa gamau, os o gwbl, fydd yn cael eu gweithredu. Os na bydd camau yn cael eu gweithredu, dylai'r unigolyn dan sylw gael gwybod y rheswm paham. Bydd gan y 'chwythwr chwiban' yr hawl I ofyn fod y penderfyniad cyntaf i beidio â gweithredu yn cael ei adolygu gan berson priodol arall, a fydd yn cael ei bennu gan y Brifysgol; er enghraifft, os datgelwyd yn wreiddiol wrth swyddog yn y Brifysgol, gallai'r adolygiad dilynol gael ei gyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu'r Canghellor.

9.2. Bydd y person arall hwn yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, y gweithdrefnau a ddilynwyd a'r rhesymau dros beidio â gweithredu ymhellach. Penderfynir yn y pen draw naill ai i gadarnhau nad oes angen gweithredu ymhellach neu fod angen ymchwiliad pellach a dilynir y gweithdrefnau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 uchod.

9.3. Os gwneir datgeliad "cymh wyso ", bydd y person neu'r personau y datgelir amdanynt fel arfer yn cael gwybod am hynny, ac am y dystiolaeth sy'n cefnogi'r datgeliad, a byddant yn cael yr hawl i roi sylwadau cyn bod unrhyw ymchwiliad, neu weithredu pellach, yn dod i ben. Fodd bynnag, lle byddai datgelu yn peryglu gallu'r Brifysgol, yr heddlu neu ymchwilydd annibynnol i gynnal ymchwiliad priodol, mewn achosion o'r fath efallai na fydd y personau y datgelir amdanynt yn cael gwybod cyn y camau ymchwilio cyntaf.

## 10. Adrodd ynghylch Canlyniadau

10.1. Bydd y person dynodedig yn llunio adroddiad o'r holl ddatgeliadau a'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd ac yn cadw'r cyfryw adroddiadau am gyfnod penodol (e.e. tair blynedd). Ym mhob achos, cyflwynir adroddiad o ganlyniadau unrhyw ymchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg; bydd yr adroddiad yn fanwl yn achos mater sydd o fewn i'w faes, ac yn grynodeb ym mhob achos arall, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd y weithdrefn.

## 11. Adolygu'r Polisi

11.1. Bydd Adnoddau Dynol yn cydlynu adolygiad o'r polisi hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith ac ymarfer da. Bydd pob adolygiad yn cynnwys ymgynghori ag undebau llafur cydnabyddedig, a bydd unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor perthnasol priodol, Grŵp Gweithredol y Brifysgol a'r Cyngor os bydd angen.

## 12. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

12.1. Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i sefydlu'r Cynllun Cydraddoldeb yn ei pholisïau, ei gweithdrefnau a'i dulliau gweithio. Aseswyd effaith y polisi hwn yn unol â'r cynllun cydraddoldeb.

## 13. Y Gymraeg – Hawliau Gweithwyr

13.1. Yn unol â Rheol i adau Safonau 'r Gymra eg a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 mae gan weithwyr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg

- i weud cwyn
- i ymateb i gŵyn neu honiad

ac mae gan weithwyr yr hawl hefyd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd lle maent yn destun

- cwyn a honiad (neu os ydynt wedi gwneud cwyn)
- trafodion disgyblaethol
- trafodaethau'r cynllun cyfraniad effeithiol
- cyfarfodydd ymgynghori unigol

13.2. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

## POLISÏAU AR GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n ceisio bod yn gynhwysol, gan werthfawrogi amrywiaeth ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned.

Cynllun Cydraddoleb Strategol a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb

Ar 27 Mawrth 2020, bu i'r Cyngor gymeradwyo 'Cynllun Gweithredu Strategol ar Gydraddoldeb 2020–24' Prifysgol Aberystwyth. Mae'r ddogfen hon – sy'n amlinellu pum amcan – ar gael ar: www.aber.ac.uk/cy/equality.

Fideo Cydraddoldeb

Mae fideo cydraddoldeb wedi cael ei chynhyrchu er mwyn hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Prifysgol Aberystwyth a dangos bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth graidd amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol a chefnogol y Brifysgol, lle mae urddas, parch a chydweithio yn hanfodol i'n holl weithgareddau. Anogir aelodau'r Cyngor i wylio'r fideo fer hon, sydd ar gael ar: http://www.aber.ac.uk/cy/equality/video/.

Amrywiaeth yn y Gweithle

Mae'r 'Cwrs eDdysgu Amrywiaeth yn y Gweithle' yn darparu hyfforddiant gorfodol i holl aelodau staff Prifysgol Aberystwyth. Disgwylir hefyd i aelodau'r Cyngor ddilyn y cwrs hwn cyn gwasanaethu ar baneli cyfweliadau swydd neu dribiwnlysoedd.

Darperir yr hyfforddiant drwy gyfrwng sesiwn diwtorial ar-lein. Gellir dilyn y sesiwn hon i gyd ar yr un pryd (tua 30 munud o hyd) neu mewn darnau llai pan mae'n gyfleus i chi. Rhaid cwblhau'r cwis sy'n rhan o'r rhaglen er mwyn cyflawni'r hyfforddiant.

Bydd arnoch angen eich manylion mewngofnodi e-bost Prifysgol Aberystwyth er mwyn dilyn y cwrs eDdysgu, sydd ar gael ar: http://www.aber.ac.uk/cy/equality/diversitycourse/.

## RHEOLIADAU A GWEITHDREFNAU ARIANNOL

Anogir aelodau o'r Cyngor i ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau Ariannol, sydd ar gael ar: https://www.aber.ac.uk/cy/finance/regs-procedure/. Lle bo'n berthnasol, cafodd adrannau o'r dogfennau hyn eu hatgynhyrchu yn gynharach yn y llawlyfr hwn.

Rheoliadau Ariannol

Y mae Rheoliadau Ariannol y Brifysgol yn mynegi'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r holl drafodion masnachol a ymgymerir gan neu ar ran y Brifysgol. Caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Cyngor ac maent yn orfodol i holl swyddogion a phob aelod o staff y Brifysgol. Cymeradwywyd y ddogfen hon gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2019. Y mae'r Rheoliadau Ariannol mewn grym ymhob rhan o'r Brifysgol ac i bob un o is-ymgymeriadau'r Brifysgol. Y mae'r Rheoliadau Ariannol hyn yn ddarostyngedig i Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol ac i unrhyw gyfyngiadau a gynhwysir yn y Cod Rheolaeth Ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Chod Ymarfer Archwiliadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio yn adolygu'r Rheoliadau Ariannol yn flynyddol a bydd yr holl newidiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ogystal ag i'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer eu hanfon ymlaen i ofyn am gymeradwyaeth y Cyngor. Gall diwygiadau gael eu cynnig gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'u cymeradwyo gan y Cyngor.

Gweithdrefnau Ariannol

Y mae Llawlyfr Gweithdrefnau Ariannol y Brifysgol yn mynegi'n union sut y caiff y Rheoliadau eu gweithredu ac maent yn atodiad i'r Rheoliadau Ariannol. Nid oes yn rhaid cael cymeradwyaeth ffurfiol Pwyllgor i'r Llawlyfr Gweithdrefnau Ariannol ond os gwneir newidiadau rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio a'u cyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol.

Pe digwyddai bod gwrthddweud ymddangosiadol rhwng y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau, y Rheoliadau a gaiff flaenoriaeth.